



Adroddiad Blynyddol 2018/19

Cyng. Anne T Lloyd-Jones

Annibynnol

Ward Tywyn



Pwrpas yr adroddiad yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn

[Gweler y ddolen](#) i wefan y Cyngor am fanylion cyfrifoldebau, pwyllgorau a chyrrff allanol rwy'n eu gwasanaethu, ynghyd a chofnod o bresenoldeb

Prif Weithgareddau Etholaethol a Chymunedol

- 'Rwyf yn Gadeirydd Pwyllgor Cronfa Apêl yr Ysbyty
- Dros y blynyddoedd mae'r Pwyllgor Apêl wedi cyfrannu £100,000 i Uned Belydr-X yr Ysbyty, £20,000 at sganiwr llygaid, ac erbyn hyn wedi rhoi bath arbennig hefyd. Mae gwaith y Pwyllgor Apêl yn parhau
- Bu i mi ildio fy sedd fel Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Penybryn rhai blynyddoedd yn ôl ar ôl sawl blwyddyn yn y Gadair. Fel y nodais, bu i'r buddsoddiad o £1.8 miliwn ar gyfer y Neuadd dderbyn croeso mawr. 'Rwyf yn parhau i fod â diddordeb yng ngwaith yr Ysgol
- Yn ystod y flwyddyn, bu i mi gyfarfod a Chynghorwyr eraill, Swyddogion Cyngor Gwynedd, yr Aelod Cynulliad Dafydd Elis-Thomas a'r Aelod Seneddol Liz Saville Roberts ar sawl achlysur ynghylch materion etholaethol. Bu i mi hefyd gyfarfod a'r Arweinydd Dyfrig Siencyn ac Aelodau Cabinet sydd wedi bod yn llwyr gefnogol yn ystod blwyddyn anodd o ystyried y cyfyngiadau ariannol
- 'Rwyf wedi cael sawl cyfarfod gyda fy etholwyr yn ystod y flwyddyn, gan ymdrin â materion tai, iechyd, cynllunio, addysg, pasbort i restru dim ond rhai!

Cyfarfodydd, Seminarau a Hyfforddiant y bu i mi eu mynychu

- Wedi mynychu cyfarfodydd misol y Cyngor Tref a'r amrywiol is-bwyllgorau perthnasol
- Mynychais gyfarfodydd y CCG yn rheolaidd tra yn Aelod o'r Bwrdd

- 'Rwyf yn drysorydd cangen leol yr NSPCC ers 1989 ac rydym yn parhau i godi arian i'r elusen

Y Pwyllgor Cynllunio - 2018/19	01/04/2019
Tai Teg - Pa Gynlluniau Sydd ar Gael	20/02/2019
YGC : Effaith Newid Hinsawdd ar Gymunedau Gwynedd	21/11/2018
Ffordd Gwynedd	21/11/2018
Rhiantu Corfforaethol	19/09/2018
Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi	06/09/2018
Y Pwyllgor Cynllunio - 2017 (Apeliadau Cynllunio)	27/07/2018